Cyngor Celfyddydau Cymru

# Coronafeirws: Cymorth i Unigolion

# Cronfa Ymateb Brys

Ebrill 2020

Cyngor Celfyddydau Cymru / Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru / Sponsored by Welsh Government
Yn dyfarnu arian / Awarding funds from Y Loteri Genedlaethol / The National Lottery®
Freelands Foundation

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cronfa ymateb brys | 2 |
| Beth yw'r gronfa? | 3 |
| Dyddiadau cau | 4 |
| Am faint y gallaf ymgeisio? | 4 |
| Beth yw'r blaenoriaethau? | 4 |
| Mae'r grantiau'n agored i: | 4 |
| Gweithwyr rhan-amser | 5 |
| Gweithwyr llawrydd yn y diwydiannau creadigol | 5 |
| Pwy sy'n anghymwys? | 5 |
| Beth fydd raid ichi ei gyflwyno? | 6 |
| Beth yw'r broses ymgeisio? | 6 |
| Cwestiynau cyffredin | 7 |
| Pa gwestiynau fydd raid ichi eu hateb? | 7 |
| Manylion banc | 8 |
| Ansicr a ydych chi neu eich cais yn gymwys? | 8 |
| Rhyddid gwybodaeth | 9 |
| I wneud cwyn | 9 |
| Diogelu data | 9 |


hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, Arwyddeg Prydain, Hawdd eu Darllen ac ar awdio. Ceisiwn ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

## Cronfa ymateb brys

- Dyma gronfa i artistiaid a'r gweithwyr llawrydd unigol hynny sydd wedi colli eu hincwm o'u gwaith creadigol a/neu eu hymarfer o ganlyniad i goronafeirws

- Gallwch ymgeisio am grant o hyd at £2,500 i helpu i gefnogi eich anghenion mwyaf brys

- Ein nod yw cefnogi pobl ac nid ar sail gystadleuol chwaith, ond nid yw'r arian yn ddiderfyn. Mae'n bwysig bod arian yn cael ei roi i'r rhai sydd yn yr angen mwyaf. Byddem ni felly'n gofyn ichi feddwl yn ofalus a ddylech ymgeisio ai peidio

- Bwriad y broses yw bod yn hawdd a chyflym. Rydym ni'n anelu at brosesu ceisiadau mewn 3 wythnos o'r dyddiad cau. Os bydd nifer y ceisiadau'n golygu bod hyn yn amhosibl, rhoddwn wybod ichi cyn gynted â phosibl

## Beth yw'r gronfa?

**Nod y gronfa yw cefnogi artistiaid llawrydd ac ymarferwyr creadigol llawrydd sy'n gweithio yn y sector dielw yng Nghymru sy'n cael anawsterau ariannol o ganlyniad i golli incwm yn sgil coronafeirws.**

Mae'r gronfa'n cynnig grant untro a fydd yn cynnig pont ariannol ar gyfer y bobl yng Nghymru yr effeithir arnynt fwyaf ac sydd dan anfantais oherwydd canslo eu gwaith yn yr argyfwng.

Ein blaenoriaeth yw cefnogi'r rheini sydd â'r angen mwyaf, yn enwedig y rheini sydd leiaf tebygol o elwa ar y cynlluniau a ddaeth i'r fei'n ddiweddar:

- cynllun cadw swyddi
- cymorth incwm i bobl hunangyflogedig

Rhaid inni gefnogi'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf brys. Ein blaenoriaeth nawr yw lleddfu caledi'r rhai sy'n gweithio yn y celfyddydau drwy gael yr arian i'r rhai sydd ei angen.

Nid ydym ni'n llunio proses gystadleuol, ac ni fydd unrhyw grant yn dibynnu ar unrhyw brawf modd. Ond rydym ni'n dibynnu arnoch chi i fod yn ystyriol o anghenion pobl eraill wrth ddewis ymgeisio ai peidio. Rydym ni'n ymddiried yn ein cymuned artistig i barchu hyn.

Ar y llaw arall, rydym ni'n addo i chi gronfa mor gyflym a hawdd ag y gallwn ni ei llunio.

## Dyddiadau cau

Mae dau ddyddiad cau.

Rownd 1

Mae’n agor i geisiadau **ddydd Mawrth 14 Ebrill 2020**. Rhaid cyflwyno cais ar-lein erbyn **5pm ddydd Llun 20 Ebrill**.

Rownd 2

Mae’n agor i geisiadau **ddydd Mawrth 28 Ebrill 2020**. Rhaid cyflwyno cais ar-lein erbyn **5pm ddydd Mercher 6 Mai 2020**.

## Am faint y gallaf ymgeisio?

Gallwch chi ofyn am grant o unrhyw swm hyd at £2,500. Dim ond os bydd eich cais yn cynnwys costau hygyrchedd (gweler y Cwestiynau Cyffredin) y cewch ofyn am ragor na £2,500.

## Beth yw'r blaenoriaethau?

Ein nod yw cefnogi'r rhai mwyaf difreintiedig. Os nad ydych chi mewn angen dwys, efallai y byddwch chi’n gallu ymgeisio i'r ffynonellau cymorth eraill a fydd yn cael eu cyhoeddi yn yr wythnosau nesaf.

Mae'r arian yn cael ei gynnig ar sail anghystadleuol ac rydym ni’n gofyn ichi gyflwyno cyn lleied â phosibl o wybodaeth er mwyn inni allu rhoi grant cyn gynted ag y bo modd.

Dim ond os ydych chi’n profi anhawster ariannol brys y dylech ofyn am gymorth oherwydd colli enillion o'ch gwaith creadigol a/neu'ch ymarfer o ganlyniad i goronafeirws.

## Mae'r grantiau'n agored i:

- Gweithwyr llawrydd y mae eu gwaith yn esgor yn uniongyrchol ar ganlyniadau creadigol. Efallai y byddwch chi’n artist gweledol mewn unrhyw gyfrwng, yn ysgrifennu barddoniaeth, rhyddiaith neu ffuglen, yn ddramodydd, yn actor neu’n wneuthurwr theatr, yn ddawnsiwr, yn gerddor, yn wneuthurwr crefftau neu’n ddylunydd. Byddwch chi’n cael cyfran sylweddol o'ch incwm o'ch gwaith creu neu' gynhyrchu deunydd gwreiddiol sy’n artistig, creadigol neu ym maes dylunio a byddwch chi’n anfonebu am eich gwaith yn uniongyrchol

- Gweithwyr llawrydd y mae eu gwaith yn cefnogi'n uniongyrchol wneud a chyflwyno gwaith creadigol gan gynnwys digwyddiadau. Efallai eich bod yn gynhyrchydd theatr, yn gynllunydd goleuo, yn hyrwyddwr bandiau, yn guradur annibynnol neu'n

gynhyrchydd creadigol. Byddwch chi’n cael cyfran sylweddol o'ch incwm o'ch gwaith cefnogi neu gynhyrchu deunyddiau a digwyddiadau gwreiddiol sy’n artistig, creadigol neu ym maes cynllunio a byddwch chi’n anfonebu am eich gwaith yn uniongyrchol

- Rhaid i'ch CV ddangos bod gennych ymarfer proffesiynol llawrydd fel y disgrifir yma. Os nad yw eich gwaith yn benodol gelfyddydol, rhaid i'ch CV ddangos bod cyfran sylweddol ohono yn sector dielw y celfyddydau a’r diwydiannau creadigol

- Deallwn y bydd llawer o weithwyr llawrydd yn cael gwaith rheolaidd gan yr un cyflogwr. Os felly, dylech archwilio pa drefniadau sydd gan y cyflogwr i gefnogi ei weithlu. Byddwch chi’n gymwys i gael grant drwy'r cynllun yma os nad yw’ch cyflogwr yn gallu eich cefnogi ac nad oes unrhyw gymorth arall

## Gweithwyr rhan-amser

Os ydych chi'n gyflogedig yn rhan-amser ac yn meddu ar ymarfer creadigol proffesiynol llawrydd hefyd, byddwch chi’n gymwys. Ond gofynnwch yn unig am arian i ddiwallu eich angen mwyaf brys oherwydd colli eich enillion llawrydd.

## Gweithwyr llawrydd yn y diwydiannau creadigol

Mae'r grantiau yma’n canolbwyntio ar gefnogi artistiaid ac ymarferwyr creadigol y cyflwynir eu gwaith yn bennaf yn y sector dielw a'r rheiny sy'n cynhyrchu neu'n cefnogi fel arall y gwaith o gyflwyno'r gwaith yma gerbron cynulleidfa.

Nid yw'r rhai sy'n gweithio'n bennaf yn y diwydiannau creadigol ehangach yn gymwys. Rhagwelwn y bydd ymyriadau Llywodraeth Prydain ac asiantaethau menter yn canolbwyntio ar y maes yma.

## Pwy sy’n anghymwys?

- Y rhai na allant arddangos ymarfer creadigol proffesiynol llawrydd yn sector dielw y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol

- Sefydliadau

- Unigolion y tu allan i Gymru

- Unrhyw un sy'n dal yn yr ysgol, neu'n astudio naill ai'n llawn amser neu sy'n rhan o raglen ffurfiol, achredadig neu dymor hir mewn coleg neu brifysgol (ar adeg y cais) gan gynnwys myfyrwyr PhD

- Academyddion neu weithwyr proffesiynol eraill ym maes addysg

## Beth fydd raid ichi ei gyflwyno?

1. CV neu ddatganiad byr am eich gwaith. Mae CV yn ddogfen fer sy'n crynhoi cefndir, sgiliau, profiad a chyflawniadau rhywun

2. Enw ac e-bost canolwr proffesiynol:

    - Gall canolwr proffesiynol fod yn unrhyw un mewn swydd/swyddogaeth gydnabyddedig yn y celfyddydau neu'r diwydiannau creadigol sy'n gallu gwirio bod gennych ymarfer proffesiynol fel artist llawrydd neu ymarferwr creadigol llawrydd

    - Gall fod yn rhywun sydd wedi'ch cyflogi fel artist llawrydd neu ymarferwr creadigol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf

    - Gall fod yn rhywun o sefydliad celfyddydol, rhwydwaith creadigol lleol neu gyflogwr presennol

3. Wrth gyflwyno cais, rhaid cynnwys tystiolaeth bod gennych gyfrif banc yn eich enw cyfreithiol sydd yr un enw ag sydd yn eich cais. Ni allwn dderbyn ceisiadau dan enw llwyfan, er enghraifft.

## Beth yw'r broses ymgeisio?

1. Gofynnwn ichi lenwi a chyflwyno ar-lein ffurflen gais syml sydd yma.
   Os nad ydych chi'n gallu mynd at y ffurflen ar-lein, cysylltwch â ni: grantiau@celf.cymru

2. Ar ôl inni gael eich cais, anfonwn e-bost sy'n cydnabod derbyn y cais gyda ffurflen monitro cydraddoldebau ichi ei llenwi. Mae'r ffurflen ar wahân i'r ffurflen gais a'i hunig ddiben yw monitro cydraddoldebau. Ni fydd yn rhan o'n proses gwirio eich cymhwysedd. Mae'n bwysig eich bod yn llenwi'r ffurflen

3. Rydym ni'n penderfynu a ydych yn gymwys drwy ddarllen y wybodaeth yn eich CV/datganiad byr i sicrhau eich bod yn artist llawrydd neu'n ymarferwr creadigol llawrydd

4. Os oes angen, rydym ni'n cysylltu â'ch canolwr gyda chais i wirio eich gwaith fel artist llawrydd neu ymarferwr creadigol llawrydd

5. Mewn rhai achosion, byddwn ni'n cysylltu â chi i gael esboniad pellach o'ch cais

6. Ar ôl cymeradwyo eich cais, byddwn ni'n gofyn ichi lenwi a dychwelyd ein ffurflen manylion banc a'ch llythyr derbyn grant

7. Ar ôl ichi ddychwelyd eich llythyr derbyn grant ac ar ôl inni wirio manylion eich cyfrif banc, byddwn ni'n talu 100% o'r grant

8. Ni fyddwn ni'n ceisio unrhyw wybodaeth fonitro neu adrodd yn ôl am y grant ar ôl inni dalu'r grant

**Dalier sylw:**

Os na allwn ni gadarnhau eich bod yn artist llawrydd neu'n ymarferwr creadigol llawrydd y caiff ei enillion eu heffeithio'n uniongyrchol gan goronafeirws, byddwn ni'n rhoi gwybod ichi na lwyddodd eich cais. Bydd y penderfyniad yma'n derfynol.

Byddwn ni'n ymateb i bob cais mewn 3 wythnos o'r dyddiad cau a byddwn ni'n ceisio ymateb yn gyflymach lle bo hynny'n bosibl. Os bydd gallu ein gweithlu'n gostwng oherwydd coronafeirws, byddwn ni'n cysylltu â chi i drafod amserlen ddiwygiedig.

## Cwestiynau cyffredin

Cyn dechrau ar eich cais, darllenwch ein Cwestiynau Cyffredin. Yno mae stôr o wybodaeth am sut i gyflwyno cais.

## Pa gwestiynau fydd raid ichi eu hateb?

Bydd cwestiynau sylfaenol amdanoch chi a rhywfaint o wybodaeth i'n helpu i gael gwybod ble mae ein harian yn mynd (er enghraifft, ble rydych chi ac ym mha sector rydych chi'n gweithio)

Rydym ni hefyd yn gofyn y cwestiynau yma:

1. **Beth ydych chi'n ei wneud? Pa fath o waith rydych chi'n ei wneud a beth yw ei amrediad? Oes unrhyw gyflawniadau pwysig yr hoffech chi sôn amdanyn nhw?**

   Defnyddiwch yr adran yma i roi gwybod inni amdanoch chi a'ch gwaith. Byddwn ni'n defnyddio eich ateb i benderfynu a yw eich gwaith yn syrthio i un o'n categorïau cymwys

2. **Sut mae coronafeirws wedi effeithio ar eich incwm llawrydd oherwydd canslo gwaith cyfredol ac yn y dyfodol?**

   Dywedwch wrthym am yr effaith ar eich incwm o ganlyniad i goronafeirws. Ni allwn eich ariannu drwy'r gronfa yma os nad yw'r newid yn eich amgylchiadau'n gysylltiedig â cholli incwm oherwydd coronafeirws

3. **Ar hyn o bryd ydych chi'n cael unrhyw arian arall gan y Cyngor? (Os ydych, rhowch fanylion inni.)**

Dywedwch wrthym am unrhyw arian a gawsoch, unrhyw newidiadau i'r prosiect o ganlyniad i goronafeirws a pha effaith mae hyn yn ei chael ar eich incwm.

4. **Pam nad ydych chi'n gymwys i gael arian oddi wrth gynllun cadw swyddi na chymorth incwm i bobl hunangyflogedig y Llywodraeth?**

   Rhowch inni fanylion am eich ymholiadau i'r cynlluniau yma a pham rydych chi'n anghymwys.

5. **A ydych chi'n ceisio cymorth ariannol o ffynhonnell arall? A ydych chi'n disgwyl llwyddo?**

   Dylech geisio cymorth o ffynonellau eraill lle bynnag bo hynny'n bosibl. Os cawsoch arian arall neu os credwch eich bod â hawl i gael arian arall a fydd yn lleddfu ar eich anghenion brys, dylech ystyried hynny yn eich penderfyniad i ymgeisio ai peidio.

## Manylion banc

- Dim ond i'ch cyfrif personol y gallwn dalu'r grant
- Rhaid i'ch cyfrif fod yn gyfrif banc ym Mhrydain
- Byddwn ni'n talu drwy BACS
- Rhaid i'ch cyfrif fod yn yr un enw ag sydd yn eich cais am grant
- Rhaid ichi lenwi a dychwelyd ffurflen manylion banc hyd yn oed os ydych wedi derbyn arian gan y Cyngor yn y gorffennol i'r un cyfrif

Darllenwch y cwestiynau cyffredin am ragor o gyngor am dystiolaeth fanc briodol.

## Ansicr a ydych chi neu eich cais yn gymwys?

Mae natur y gronfa'n dibynnu ar onestrwydd y ceisiadau. Atebwch bob cwestiwn yn llawn, yn glir ac yn onest. Os atebwch gwestiwn gyda gwybodaeth anghywir, efallai y bydd angen inni adhawlio arian wedyn neu gymryd camau eraill os ydym ni'n amau twyll.

Os ydych chi am wybod a ydych chi neu eich cais yn gymwys, neu os ydych yn dymuno trafod cwestiynau eraill am y gronfa, cysylltwch â'n gwasanaeth ymholiadau:

E-bost: grantiau@celf.cymru

Gwefan: llenwch ffurflen ar ein gwefan

Trydar: anfonwch drydariad atom @celf_cymru

Ein nod yw ymateb i bob ymholiad yn brydlon.

Os ydych chi am inni eich ffonio, rhowch eich rhif inni a byddwn ni’n eich ffonio cyn gynted ag y bo modd.

---

## Rhyddid gwybodaeth

Mae’r Cyngor wedi ymrwymo i fod mor agored â phosibl. Credwn fod gan y cyhoedd hawl i wybod sut rydym ni’n gwario arian cyhoeddus a sut rydym ni’n gwneud ein penderfyniadau ariannu. Gallwch weld manylion o’n polisi yma

Rydym ni wedi'n rhestru fel awdurdod cyhoeddus dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Yn ôl y gyfraith, efallai y bydd yn rhaid inni ddarparu dogfennau eich cais a gwybodaeth am ein hasesiad ohonynt i unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n gofyn am gael eu gweld dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Ni fyddwn ni’n rhyddhau'r rhannau hynny o'r dogfennau sy'n dod dan un neu ragor o'r eithriadau’r Ddeddf. Ewch i'r wefan rhyddid gwybodaeth i gael gwybodaeth am ryddid gwybodaeth yn gyffredinol a'r eithriadau.

## I wneud cwyn

Os nad ydych yn hapus â'r ffordd y gwnaethom ymdrin â'ch cais, gallwch weld copi o'n Gweithdrefn Gwyno ar ein gwefan yma.

Cofiwch mai dim ond os credwch nad ydym wedi dilyn ein proses wrth ymdrin â'ch cais y gallwch gwyno. Ni allwch ddefnyddio'r weithdrefn gwyno i apelio yn erbyn y penderfyniad.

## Diogelu data

Mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o rwymedigaethau a chyfrifoldebau’r Cyngor dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Maent yn rheoleiddio sut rydym ni’n casglu, rheoli, rhannu a storio data personol a'ch hawliau mewn perthynas â hynny.

Mae rhagor o wybodaeth yn ein polisi preifatrwydd.

Ni fyddwn ni’n datgelu data personol na data personol sensitif (fel mae’r termau wedi'u diffinio yn y Rheoliadau) heb eich cydsyniad oni bai bod rhwymedigaeth bwysig (e.e. dyletswydd gyfreithiol).